



Disgrifiad Swydd ar gyfer Cynhyrchwyr Blwyddyn 2 – Hwb Chwedleua Myseliwm

BLWYDDYN 2

Cydnabyddiaeth ariannol

Ffi: £7,750 am 12 mis, ar sail 58 diwrnod o amser wedi ei ariannu, yn cael eu gweithio yn hyblyg am yr amser hwnnw)

Dyddiadau'r swydd

Ionawr 2023-Ionawr 2024

Beth yw'r Hwb Chwedleua Myseliwm

Nod yr Hwb Chwedleua Myseliwm yw datblygu **ecosystem o chwedleua** wedi ei wreiddio mewn cymunedau lleol a fydd yn cysylltu gydag ecosystem chwedleua fwy ar draws Cymru. Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud ecosystem chwedleua yw rhwydwaith o weithgareddau chwedleua parhaus yn cael eu cynnal ar draws y wlad, gan gefnogi a chyfoethogi cymunedau a chynnig gwaith cyson i chwedleuwyr. Ein nod yw gweld chwedleua ar lafar fel celfyddyd yn tyfu a chynyddu ar draws Cymru ac i chwedleuwyr a phobl sy'n gweithio gyda chwedleuwyr ffynnu.

Ar hyn o bryd, fel rhan o Flwyddyn 1 ein prosiect, rydym wedi gweld saith o ddeiliaid swyddi yn eu lle yr ydym yn eu cefnogi i weithio yn eu cymunedau ar draws Cymru. Cyfarwyddion a Chynhyrchwyr yw'r bobl yma. Cynhwysir enghreifftiau o'u gwaith yn nes ymlaen yn y pecyn hwn.

Mae ein Hwb wedi ei lunio gydag amrywiol bartneriaid sydd am gefnogi datblygiad chwedleua fel ffurf gelfyddydol ar draws Cymru. Maent yn cefnogi'r Cyfarwyddion a'r Cynhyrchwyr yn eu gwaith. Yn cael eu cynrychioli ar yr Hwb ar hyn o bryd mae Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Beyond the Border, Citrus Arts, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Iaith Cymru a PeopleSpeakUp. Yn cefnogi'r prosiect hefyd mae Theatr Soar a Head4Arts.

Mae'r Hwb yn cyfarfod yn gyson ac yn ymwneud â recriwtio Cyfarwyddion a Chynhyrchwyr newydd ar gyfer y prosiect a'u cefnogi yn eu swyddi.

Cefnogir gwaith yr Hwb gan gronfa Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Beth yw swyddogaeth y Cynhyrchydd?

Rydym yn recriwtio Cynhyrchydd i ddatblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua sy'n ymestyn yn eang ac yn ddwfn i gymunedau i gefnogi datblygiad parhaus yr Hwb a gwaith ein Cyfarwyddion Cyfoes.

Cefndir: Yng Nghymru'r canol oesoedd y "Cyfarwydd", yr hen chwedleuwyr Cymreig, oedd yn cofnodi ac adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau, gan gynnig arweiniad cynnil trwy'r storïau yr oeddent yn eu hadrodd. Byddai'r Cyfarwydd yn cychwyn trwy brentisiaeth, a byddai'n mynd ymlaen i fod yn aelod mawr ei barch o gymdeithas, yn teithio a dod â newyddion i'r llysoedd, gan adlewyrchu cymdeithas y cyfnod trwy'r chwedlau – felly roedd yn creu rhwydweithiau mewn sawl ffordd. Mae BTB yn sefydlu pedair swydd **Cyfarwydd Cyfoes** newydd dros y ddwy flynedd nesaf fel canolbwynt i Hwb Myseliwm sy'n tyfu, yn rhagweithiol ac ymatebol ar draws Cymru, gan gysylltu gyda chynhyrchwyr a phartneriaid sefydliadol i gynyddu ystod ac ehangu'r amrywiaeth wrth ymgysylltu â chwedleua. Bydd pob Cyfarwydd yn cyflawni swyddogaeth chwedleuwr mewn cymuned benodol, gan ymateb i anghenion a photensial y gymuned, gan feithrin partneriaethau diwylliannol amrywiol gan hefyd feithrin ei dwf artistig ei hun – gan rannu cynlluniau a chefnogaeth ar draws y rhwydwaith o swyddi a gyda'r Hwb.

Pam bod arnom angen Cynhyrchydd? Rydym yn awyddus i glywed gan ddarpar gynhyrchwyr ag ystod o brofiad a diddordeb mewn chwedleua. Efallai eich bod yn gynhyrchydd celfyddydol profiadol nad yw erioed wedi gweithio gyda chwedleuwyr, efallai eich bod yn chwedleuwr fyddai'n hoffi datblygu sgiliau cynhyrchu, efallai eich bod yn gynhyrchydd celfyddydol fyddai'n hoffi cynhyrchu digwyddiadau gyda chwedleua yn ganolog iddynt, efallai bod gennych berthynas gref neu bartneriaethau mewn cymuned benodol lle mae chwedlau yn aros i gael eu dweud a'u clywed. Bydd y ceisiadau y byddwn yn eu derbyn yn cael dylanwad ar sut y bydd y swyddi'n cael eu cyflawni – efallai y byddwch yn cael eich paru â Chyfarwydd i weithio mewn partneriaeth mewn cymuned benodol, neu efallai y byddwch yn datblygu rhaglen neu brosiect gyda chyfleoedd i chwedleuwyr a phartneriaid eraill.

Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o waith y Cynhyrchwyr presennol ar ddiwedd y pecyn recriwtio hwn.

Bydd y Cyfarwyddion Cyfoes a'r Cynhyrchwyr sy'n rhan o Hwb Chwedleua Myseliwm yn cael eu cefnogi i ddatblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua, gan gynnwys perfformiadau chwedleua ac ymgysylltu, sy'n cyrraedd yn fwy eang ac yn ddyfnach i'r gymuned y mae eu preswylad wedi ei seilio ynddi. Bydd rhai cymunedau yn ddaearyddol, ond rydym hefyd yn barod i dderbyn ceisiadau ar sail cymunedau o ran diddordeb. Fel rhan o'ch cais, byddwn yn gofyn i chi nodi'r cymunedau yr ydych yn fwyaf awyddus i weithio gyda nhw - gallai hyn fod yn:

- Gymuned o ddiddordebau (pobl sy'n gysylltiedig trwy ddiddordeb/waith a rennir) e.e. gweithio gyda Llochesi Merched ar draws Cymru, neu weithio mewn lleoliad gofal iechyd.
- Gymunedau o ran hunaniaeth (diwylliant neu brofiad a rennir) e.e. gweithio gyda chymunedau De Asia.
- Gymuned Ddaeryddol (tref/stryd/ardal) e.e. gweithio yn Rhondda Cynon Taf.
- Gymunedau o Amgylchiadau (pobl sydd wedi eu clymu â'i gilydd trwy brofiad a rennir) e.e. gweithio gyda phobl sydd wedi profi galar neu golled.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymarferwyr sydd â diddordeb mewn gweithio trwy egwyddorion cyd-greadigol, gan weithio gyda neu ochr yn ochr â phobl a chymunedau i ddatblygu sgiliau ac arddangos gallu pobl, gan roi blaenoriaeth i gyfraniad a phrofiad pobl ifanc a theuluoedd, pobl fyddar ac anabl, pobl Ddu, Asiaidd a mwyafrif byd-eang, y gymuned LGBTQIA+, siaradwyr Cymraeg.

Nod y gwaith hwn yw:

- galluogi rhagor o bartneriaid o amrywiaeth o gymunedau i gysylltu'n greadigol â chwedleua
- galluogi rhagor o bobl i brofi chwedleua fel rhan ystyrion o'u bywydau dyddiol
- galluogi rhagor o bobl i ddatblygu creadigrwydd a hyder wrth ymgysylltu â chwedleua
- galluogi i'ch sgiliau cynhyrchu chi eich hun ehangu a dyfnhau trwy'r gwaith y byddwch yn ei gychwyn a thrwy eich cysylltiadau ag eraill yn yr Hwb.

Manyleb Person ar gyfer swydd y Cynhyrchydd

Hanfodol:

- Profiad o ddatblygu a chyflawni gweithgareddau celfyddydol cyfranogol gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd
- Dealltwriaeth o ddull datblygu cymunedol cynhwysol
- Dealltwriaeth o ystod eang o gynulleidfaoedd/cyfranogwyr
- Profiad o ddatblygu perthynas waith effeithiol gyda phartneriaid
- Profiad o gyflawni deilliannau prosiect gan reoli nifer o flaenoriaethau a dyddiadau cau
- Y gallu i ddatrys problemau
- Sgiliau ariannol a gweinyddol da
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant
- Gwybodaeth am reoliadau iechyd a diogelwch
- Profiad o fonitro a gwerthuso prosiectau
- Dull llawn dychymyg, brwdfrydig a hyblyg
- Sgiliau cyfathrebu gwych a'r gallu i ysbrydoli
- Wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol
- Yn gallu cynrychioli Beyond the Border, Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru ar bob lefel

Dymunol:

- Gwybodaeth am ddiwylliant chwedleua traddodiadol ar lafar
- Rhwydweithiau creadigol yn barod mewn cymunedau yng Nghymru
- Profiad o drafod partneriaethau a chodi arian
- Y gallu i weithio yn y Gymraeg

Ffioedd: £7,750, am tua 58 diwrnod –a gynlluniwyd fel swydd 12 mis.

Gwerthuso: Mae BTB wedi penodi gwerthuswr annibynnol i helpu i gofnodi a gwerthuso cryfderau a'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun hwn, i helpu i siapio cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd cyfrannu at werthusiad yn ofynnol i'r holl ddeiliaid swyddi.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn sylweddol yn ein sector, fel pobl anabl, niwrowahanol, siaradwyr Cymraeg ac unigolion o'r Cymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang.

Byddwn yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n ymgeisio. Byddwn yn rhedeg sesiwn agored i bobl gael dysgu rhagor a gallwn sgwrsio am y swydd. Byddwn yn cynnig cyfweiliadau wedi eu gwarantu i siaradwyr Cymraeg, ac ymgeiswyr o gymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang, a rhai anabl a Niwrowahanol.

Er mwyn ymgeisio:

Anfonwch eich CV a llythyr cais byr yn amlinellu:

1. Eich Sgiliau a Phrofiad Perthnasol
2. Manylion y cymunedau yr ydych fwyaf awyddus i fod yn seiliedig ynddynt – boed yn gymuned o ddiddordebau, hunaniaeth, daearyddiaeth neu amgylchiadau.
3. Y blaenoriaethau y byddai gennych ddiddordeb yn eu harchwilio trwy breswylid, yng nghyswllt gweithgareddau cymunedol a'ch datblygiad chi eich hun
4. Pam bod y swydd o ddiddordeb i chi
5. Beth am y ffurf gelfyddydol o chwedleua ar lafar sy'n eich cyffroi?

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar fideo.

Gallwch ymgeisio hefyd trwy fideo, gan eich ffilmio eich hun yn ateb y cwestiynau hyn.

Anfonwch eich cais at recruitment@beyondtheborder.com erbyn **Dydd Llun 10fed o Hydref am 5.00y.h.**

Byddwn yn cynnal dau gweminar ar-lein i rannu gwybodaeth am y prosiect a'r swyddi ar y dyddiadau isod:

Beth yw'r Hwb Myseliwm a'r roliau sydd ar gael? Gan gynnwys cwestiynau ac atebion gan dîm BTB. Awst 25, 7-8yh, ar Zoom.

Sut i fod yn chwedleuwr, Medi 7, 7-8.30yh, ar Zoom.

I fwcio lle ar gyfer y digwyddiadau yma, e-bostiwch recruitment@beyondtheborder.com.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y swydd ac y byddech yn hoffi eu trafod cyn cyflwyno cais, anfonwch eich ymholiadau at recruitment@beyondtheborder.com.

Os oes unrhyw gwestiynau neu ofyniadau hygyrchedd eraill y gallem ni eu gwneud i gefnogi'ch cais, plis e-bostiwch ni hefyd.

Y Cynhyrchwyr Presennol

Cathy Boyce (Castell-nedd Port Talbot/Merthyr/Rhondda Cynon Taf)

Ganed Cathy yng Nglyn Nedd. Ar ôl astudio Celfyddyd Gain a Chynhyrchu Ffilmiau Annibynnol ar lefel gradd ac ôl-radd cychwynnodd ei gyrfa yn gweithio fel cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer ffilmiau a theledu.

Ymunodd â'r adran creu rhaglenni theatr yng Nghanolfan Chapter yn 2000 ac am yr 20 mlynedd nesaf bu'n chwarae rôl allweddol yn y sefydliad, gan ddatblygu, rhaglennu a chynhyrchu prosiectau theatr, cerdd, dawns a pherfformiadau arbrolol gan gynnwys yr Wyl gelfyddydau byw ryngwladol flynyddol Experimentica.

Ar hyn o bryd mae'n gweithio'n llawrydd fel Cynhyrchydd Creadigol gan weithio'n glos ac ar y cyd ag artistiaid annibynnol a sefydliadau o'r un meddylfryd.

Mae helpu artistiaid i wneud i bethau ddigwydd yn ganolog i'w holl waith.

Fel rhan o'i gwaith ar gyfer Hwb Chwedleua Myseliwm, mae wedi bod yn ymchwilio i gyfleoedd newydd i ddwyn chwedleua i gymunedau lleol ar draws Cymoedd De Cymru, gan ddynodi cronfeydd ariannol, a chefnogi chwedleuwyr gyda cheisiadau cyllido i ddwyn eu gwaith i'r ardal. Mae wedi bod yn gweithio'n glos gyda Citrus Arts â phartneriaid eraill yr Hwb yn y Cymoedd.

Rhian Davies (Canolbarth Cymru)

Gyda chefnidir mewn Hanes Celf ac wedi gweithio gyda phrosiectau a sefydliadau celf cymunedol, mae Rhian yn edrych ymlaen at weithio ac ehangu rhwydwaith chwedleua yng Nghanolbarth Cymru, gan wrando ar storïau hen a newydd, yn Gymraeg ac yn Saesneg a chreu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithdai i archwilio storïau am fywyd bob dydd, chwedlau a llên gwerin gyda phobl o bob oed a lefel o brofiad chwedleua.

Yn rhan o'i gwaith mae wedi bod yn dynodi a cheisio am gyllid i ddwyn chwedleua i gymunedau yng Nghanolbarth Cymru, yn ogystal â chyfarfod chwedleuwyr yn yr ardal a'u cefnogi i gynyddu cyrraedd eu gwaith. Yn ystod haf 2022, bydd yn cynhyrchu nifer o ddigwyddiadau chwedleua yng ngogledd Powys, gan gynnwys digwyddiad gyda Credu Young Carers.

